

Cofnodion cyfarfod BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR a gynhaliwyd ar 28 Medi 2017  
yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.

Nodiadau	Camau gweithredu
<p><b>YN BRESENNOL:</b> Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Carol Bell, Is-lywydd; Catherine Duigan, Glenda Jones; Jessica Seaton; Kay Andrews, Michael Prior; Rachel Hughes; Robert Pickard; Victoria Provis; Hywel John; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol; Richard Bevins, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro; Diane Gwilt, Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro, Nia Williams, Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p><b>YN BRESENNOL:</b> Peter Owen, Pennaeth Dros Dro MALD; Lesley-Anne Kerr, Pennaeth y Tîm Datblygu Amgueddfeydd (MALD); Caroline Garnett, Pennaeth Cyllid; a Heledd Fychan, Rheolwr Materion Corfforaethol ac Eiriolaeth.</p>	
<p align="center"><b>Datganiad o Fudd: Barwnes Kay Andrews fel Cadeirydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru ym mhob peth sy'n ymwneud â Chronfa Dreftadaeth y Loteri.</b></p>	
<p><b>1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU</b></p> <p>1.1 Croesawyd Aelodau, Caroline Garnett, (yn mynychu yn absenoldeb Neil Wicks), Peter Owen a Lesley-Anne Kerr o MALD i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Laurie Pavelin, Trysorydd; Carys Howell; Hywel Ceri Jones; Keshav Singhal; Tony Atkins; a Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol.</p>	
<p align="center"><b>Yn Sesiwn Gaeddig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod a chael eu briffio am Adolygiad yr Amgueddfa, Turner House, a Sganio'r Gorwel.</b></p> <p><i>Yna agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd. Nid oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.</i></p>	
<p><b>2 COFNODION</b></p> <p>5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyo Cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2017.</p>	
<p><b>3 MATERION YN CODI o gofnodion 29 Mehefin 2017</b></p> <p>3.1 Nid oedd yna unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion nad oedd eisoes ar yr Agenda.</p>	
<p><b>4 6.5 PARTNERIAETH STRATEGOL A CHYNHYRCHU INCWM</b></p> <p>4.1 <u>Adroddwyd:</u> Bod y Llywydd wedi nodi bod hon yn eitem barhaol a chyson bellach ar yr agenda.</p>	

Nodiadau	Camau gweithredu
<p>4.2 Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod y Bartneriaeth Strategol rhwng yr Amgueddfa, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Cadw, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, y tri undeb llafur cydnabyddedig a Llywodraeth Cymru yn datblygu'n dda. Anfonwyd llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi'r diweddaraf ar ddatblygiadau gan gynnwys meysydd blaenoriaeth ar gyfer y Bartneriaeth, a hawliau digidol a sgiliau treftadaeth sydd dan fygythiad.</p> <p>4.3 Trafododd yr Aelodau'r cyfleoedd am gynhyrchu incwm a gyflwynwyd gan y Bartneriaeth, a'r amserlen debygol ar gyfer cynhyrchu unrhyw incwm. Nododd yr Aelodau rôl bwysig Croeso Cymru yn hynny, a chynigiwyd eu bod yn ymuno â'r Bartneriaeth.</p> <p>4.4 Nododd y Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro y sefydlwyd Grŵp Cynhyrchu Incwm mewnol gan y Pennaeth Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol flwyddyn yn ôl, a'i orchwyl oedd trafod ac adolygu mentrau cynhyrchu incwm mewn perthynas â'r Benthyciad Buddsoddi i Arbed. Gofynnwyd i staff am syniadau i helpu i ddatblygu proses mapio incwm. Nododd yr Aelodau'r incwm a gynhyrchir ar gyfer gweithgareddau yn ymwneud â'r casgliadau, digwyddiadau ac addysg.</p> <p>4.5 Nododd yr Aelodau'r newid diwylliannol o fewn y sefydliad ynghylch cynhyrchu incwm a'r angen ar yr Amgueddfa i ddarparu tystiolaeth weledol o'i llwyddiannau.</p> <p>4.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod y Bwrdd yn cael y newyddion diweddaraf ym mhob cyfarfod.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyffredinol / Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro</p>
<p><b>5 SESIWN BRIFFIO MALD: AMGUEDDFA GELF AC ORIEL GENEDLAETHOL GELF GYFOES; STRATEGAETH AMGUEDDFEYDD I GYMRU</b></p> <p>5.1 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd Lesley-Anne Kerr fod Just Solutions wedi'u penodi i gynnal yr astudiaeth ddichonolrwydd. Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu am ei chefnogaeth yn y broses.</p> <p>5.2 O ran yr Oriol Genedlaethol Gelf Gyfoes, dewiswyd cwmni a byddai'r enw'n cael ei gyhoeddi ar ôl i'r broses gaffael gael ei chwblhau. Diolchwyd i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Celf yng Nghyngor Celfyddydau Cymru am eu cyfraniad parhaol i'r broses hon a chaiff gweithgor ei sefydlu i barhau â'r astudiaeth ddichonolrwydd.</p> <p>5.3 Nododd yr Aelodau bwysigrwydd cynnwys amgueddfeydd lleol wrth gyfrannu at gof y genedl. Sicrhodd Lesley-Anne Kerr y Bwrdd bod yr Adolygiad Arbenigol o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015, a gynhaliwyd gan gyn-is-lywydd yr Amgueddfa, yn gonglfaen a oedd yn llywio gwaith Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Strategaeth Amgueddfeydd i Gymru. Roedd rhanbartholdeb yn ffactor allweddol.</p> <p>5.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad.</p>	

Nodiadau	Camau gweithredu
<p><b>6 DIWEDDARIAD AR Y PROJECT AILDDATBLYGU SAIN FFAGAN</b></p> <p><b><i>Ymunodd Richard Nicholls, Cyfarwyddwr Datblygu, â'r cyfarfod.</i></b></p> <p>6.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Project / y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu.</p> <p>6.2 <u>Adroddwyd</u>: Roedd y Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Arweiniol tra bod y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol i ffwrdd. Roedd y lansiad a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 yn achlysur llwyddiannus iawn ac yn garreg filltir arwyddocaol i'r Amgueddfa.</p> <p>6.3 Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri wedi cymeradwyo'r gwaith a wnaed, ac mae'r holl gyllidebau hefyd wedi'u cymeradwyo. Mae Canolfan Ddysgu Weston bellach mewn defnydd. Dathlwyd y project yn yr Eisteddfod. Derbyniwyd caniatâd cynllunio erbyn hyn i greu Crug Oes yr Efydd. Mae'r rhaglen ddigwyddiadau yn datblygu'n dda, ac rydym yn aros am ymatebion i'r pecynnau tendr ar gyfer y gwaith gosod, i'w gwblhau ym mis Hydref. Bydd hyn yn nodi diwedd yr holl dendrau ar gyfer project Sain Ffagan.</p> <p>6.4 Nododd y Llywydd, ar ran Trysorydd a Chadeirydd Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan y cytunwyd ar gytundeb masnachol gyda Kier.</p> <p>6.5 Nododd yr Aelodau'r adborth cadarnhaol iawn a dderbyniwyd gan y cyhoedd dros y tri mis diwethaf ynghylch y prif adeilad. Treialir gwahanol ddodrefn yn y prif ofod i weld sut mae ymwelwyr yn defnyddio'r lle. Soniodd yr Aelodau hefyd am lwyddiant y lansiad ar 13 Gorffennaf a'r profiad cadarnhaol a ddarparwyd gan staff i sicrhau bod pawb oedd yn bresennol yn teimlo'n falch ac yn frwdfrydig am y project. Ar gyfer y rheini nad oeddent yn bresennol, nodwyd y cafwyd araith ysbrydoledig gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar ddechrau'r digwyddiad. Nodwyd sut yr oedd y gwaith a wnaed gan yr Amgueddfa yn yr Eisteddfod eleni yng ngogledd Cymru wedi helpu cynhyrchu diddordeb cadarnhaol yn Llys Llywelyn. Nododd yr Aelodau'r adborth cadarnhaol iawn a dderbyniwyd gan athrawon.</p> <p>6.6 O ran y prif ofod y Neuadd Groeso, nododd yr Aelodau ei fod yn unigryw yng Nghymru. Mae'r Amgueddfa yn uchelgeisiol yn ei chynlluniau ar gyfer y gofod, ac yn datblygu egwyddorion allweddol gydag arweiniad eraill yn y sector. Mae cynlluniau i'w ddefnyddio yn cynnwys fflach-arddangosfeydd, llogi corfforaethol, cyfleoedd i artistiaid preswyl, a digwyddiadau creadigol ac arbrofol eraill. Nododd yr Aelodau'r posibilïadau a gynigir gan y gofod ar gyfer Artes Mundi, a'r cyfleoedd i'r Amgueddfa arddangos ei huchelgais a dychymyg ar gyfer creu gofod creadigol, er enghraifft drwy gomisiynu celf gyhoeddus.</p> <p>6.7 Rhannodd y Cyfarwyddwr Datblygu'r newyddion diweddaraf ynghylch gweithgaredd codi arian o ran Ymddiriedolaethau a Sefydliadau, cefnogwyr corfforaethol, prif roddwyr a chymynroddion. Amcan yr Amgueddfa hefyd yw codi cronfeydd digyfyngiad pellach ar gyfer Sain Ffagan, yn ogystal â chyflawni'r targed codi arian cyfalaf. Nododd yr Aelodau fod yna ragor o arwyddion ar y safle i annog pobl i roi arian, a bod yna ganlyniadau da o ran</p>	

Nodiadau	Camau gweithredu
<p>rhoi arian ar-lein.</p> <p>6.8 Nododd yr Aelodau gynnydd yn y broses o ddatblygu cynllun aelodaeth newydd, a bod angen i bawb ledaenu'r neges bod angen yr arian ar yr Amgueddfa er mwyn cyflawni ei chynlluniau uchelgeisiol.</p> <p>6.9 Roedd yr Aelodau yn falch o weld y cynnydd diweddar yn nifer yr ymwelwyr, ac edrychon ar yr amryw resymau dros hyn gyda'i gilydd, a sut yr oedd y patrwm hwn yn ei gymharu ag atyniadau ymwelwyr eraill y DU. Nododd yr Aelodau lwyddiant 'Stori Paul' wrth ddatgelu sut mae amgueddfeydd yn newid bywydau, a bod modd defnyddio hynny i lansio ymgyrch cyllido torfol.</p> <p>6.10 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod copi o araith y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cael ei rhannu ymysg yr Aelodau. Bod yr Amgueddfa yn hyrwyddo'r ddolen ar ei gwefan i'r dudalen 'Cefnogwch Ni' yn fwy amlwg.</p> <p><b>Gadawodd Glenda Jones y cyfarfod ar yr adeg hon.</b></p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa / Cyfarwyddwr Datblygu Oriolau a Phrofiad yr Ymwelydd</p>
<p><b>7 CASGLIADAU AC YMCHWIL – DIWEDDARIAD AR Y STRATEGAETH YMCHWIL</b></p> <p>7.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Ymchwil.</p> <p>7.2 <u>Adroddwyd</u>: Cyflwynodd Ymddiriedolwr Catherine Duigan y papur i'r Bwrdd. Ar ran y Pennaeth Ymchwil, amlinellodd y Cyd-gyfarwyddwr Casgliadau ac Ymchwil Dros Dro gynnydd wrth ddatblygu'r strategaeth. Gwelwyd cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys datblygu partneriaethau strategol gyda'r sector addysg uwch yng Nghymru yn arwain at greu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda nifer o brifysgolion.</p> <p>7.3 Trafododd Aelodau anghenion ymchwil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn nodi bod hwn yn gyfle da am waith ymchwil rhyngddisgyblaethol. Nododd yr Aelodau fod gan y Pennaeth Ymchwil gefndir yn y gwyddorau cymdeithasol, a bod hynny yn llywio'r amrywiaeth o waith ymchwil sy'n cael ei ystyried a'i wneud.</p> <p>7.4 Adroddodd y Llywydd ei bod yn falch o weld yr adroddiad, gan ei fod yn rhoi i'r Bwrdd y wybodaeth sydd ei angen arno i fonitro cynnydd a sicrhau bod y gwaith yn mynd ymlaen mewn ffordd strategol.</p> <p>7.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. Penderfynwyd fod y Strategaeth yn gwneud cysylltiadau clir â Gweledigaeth yr Amgueddfa a'r angen am gynhyrchu incwm. Bod y strategaeth yn nodi'n glir o'r cychwyn yr hyn sy'n gwneud casgliadau'r Amgueddfa a'i hymchwil yn wahanol i'r ymchwil a wneir gan brifysgolion.</p>	<p>Pennaeth Ymchwil</p>

Nodiadau	Camau gweithredu
<p><b><i>Gadawodd Carol Bell y cyfarfod ar yr adeg hon.</i></b></p> <p><b>8. ADRODDIAD ADDYSG BLYNYDDOL</b></p> <p>8.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Addysg.</p> <p>8.2 <u>Adroddwyd</u>: Croesawyd Eleri Wyn Evans i'r cyfarfod fel y Pennaeth Addysg newydd. Pwysleisiodd yr adroddiad ddatblygiadau a chyraeddiadau allweddol dros y flwyddyn, gan gynnwys cyflawni'r Cynllun Gweithgareddau yn Sain Ffagan, y Strategaeth Dehongli newydd, rhaglenni addysg mewn ysgolion, yn ogystal ag amrywiaeth o fentrau newydd megis y rhai sydd i gefnogi llesiant a datblygu sgiliau drwy gyrsiau achrededig. Pwysleisiodd yr adroddiad hefyd uchelgeisiau'r adran ar gyfer ymchwil, cyllideb a chyfleoedd am gynhyrchu incwm.</p> <p>8.3 Diolchodd yr Aelodau i'r Pennaeth Addysg a'i llongyfarch ar yr holl gyraeddiadau a nodwyd yn yr adroddiad, gan wneud cysylltiadau rhwng y rhaglen â'r hyfforddiant Ffrindiau Dementia a gawsant y diwrnod cynt.</p> <p>8.4 Nododd yr Aelodau hefyd fod yna fentrau cynhyrchu incwm, addysg, ymchwil a chreadigol yn cael eu hadrodd ar draws pob adran o waith yr Amgueddfa.</p> <p>8.5 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod Addysg a'r Amgueddfa yn cael eu hystyried ar gyfer Sesiwn Drafodaeth nesaf yr Ymddiriedolwyr.</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>
<p><b>9 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL</b></p> <p><b>9.1 Briff Chwarterol Chwarter 1</b></p> <p>9.1.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>9.1.2 <u>Adroddwyd</u>: Rhannodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol y diweddaraf ar gynnydd ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn drwy adlewyrchu ar gynlluniau'r Amgueddfa, dangosyddion perfformiad a thargedau cynhyrchu incwm. Dadansoddwyd perfformiad gan ddefnyddio teitlau'r Weledigaeth. Nododd yr adroddiad ariannol y sefyllfa fel y trosglwyddwyd i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad ym mis Gorffennaf, gan nodi bod y sefyllfa'n aros yr un fath – sef ar darged. Nid oedd unrhyw eithriadau ar hyn o bryd.</p> <p>9.1.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a nodwyd yr adroddiad. Cyflwyniad perfformiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol i'w ddisbarthu ymysg yr Ymddiriedolwyr.</p> <p><b>9.2 Digwyddiadau ar y gweill</b></p> <p>9.2.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>9.2.2 <u>Adroddwyd</u>: Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Ymddiriedolwyr i gwrdd ag Elaine Gurian a mynychu darlith ganddi</p>	

Nodiadau	Camau gweithredu
<p>ar 16 Hydref 2017 yng Nghaerdydd.</p> <p><b>9.2.3</b> <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod manylion y cyfarfod a darlith gan Elaine Gurian yn cael eu dosbarthu i'r Ymddiriedolwyr.</p> <p><b>9.3 Eisteddfod Genedlaethol 2018</b></p> <p>9.3.1 <u>Adroddwyd</u>: Rhannodd y Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus y diweddaraf ar gynlluniau'r Amgueddfa i gyfrannu at yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaerdydd yn 2018. Mae'r Amgueddfa'n nodd Cadair yr Eisteddfod, ac mae Prifysgol Caerdydd yn nodd i'r Goron. Bydd y ddwy yn cael eu harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd fel rhan o arddangosfa. Yn y bôn, bydd yr Eisteddfod yn cael ei chyflawni mewn ffordd wahanol iawn i Eisteddfodau blaenorol. Mae'r Amgueddfa yn rheoli ei rhan fel project ar wahân, ac mai'r Cyfarwyddwr Addysg ac Ymgysylltu yw'r Cyfarwyddwr Arweiniol. Mae'r Amgueddfa yn gweld hyn fel ffordd i Gaerdydd ddod at ei gilydd i archwilio gwahanol ffyrdd o rannu diwylliant Cymreig.</p> <p>9.3.2 Ni fyddai Maes ffurfiol a byddai mynediad am ddim. Byddai Côr yr Eisteddfod yn ymarfer yn Narlithfa Reardon Smith a chynigiwyd cyfle iddynt berfformio yn atriwm y prif adeilad yn Sain Ffagan yn ystod cyfnod yn arwain at yr Eisteddfod. Cynigir y byddai fflach-amgueddfa yn nerbynfa Canolfan y Mileniwm gyda chyfleoedd pellach am ddigwyddiadau ychwanegol drwy gydol yr wythnos. Mae'r Amgueddfa hefyd yn trafod y posibilrwydd o gael llwyfan berfformio yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, yn rhoi cyfle arall i'r rhai sy'n cymryd rhan gael perfformio.</p> <p><b>9.3.3</b> Nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod yr Amgueddfa yn edrych i gydlynu ei holl bartneriaethau ar draws Cymru, i gymryd dull cyfannol ar draws yr holl bartneriaethau.</p> <p><b>9.4 Adolygiad yr Amgueddfa</b></p> <p>9.4.1 <u>Adroddwyd</u>: Mewn perthynas ag Adolygiad Dr Thurley o'r Amgueddfa, croesawodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yr adroddiad a'i argymhellion yn gryf. Roedd yr Amgueddfa yn falch iawn i fod yn gweithio gyda Peter Owen a Lesley-Anne Kerr o MALD wrth roi canfyddiadau'r Adolygiad ar waith. Roedd yn bwysig i'r Amgueddfa gael cyfnod o sefydlogrwydd ariannol ac amser i wneud y newidiadau yma, yn unol ag argymhellion Dr Thurley yn ei adroddiad. Byddai'r Amgueddfa yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer cyhoeddi'r Adroddiad yn gyhoeddus ym mis Tachwedd 2017. Nododd y Llywydd fod y Bwrdd yn awyddus i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a gyflwynir gan argymhellion yr Adroddiad, a gweld y cyfathrebu cadarnhaol rhwng pob parti yn parhau.</p> <p>9.4.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod yr Is-lywydd i Gadeirio grŵp</p>	<p>Is-lywydd / Yr Uwch Dîm Rheoli</p>

Nodiadau	Camau gweithredu
bach o Ymddiriedolwyr i weithio gyda'r Gweithgor ar argymhellion yr Adroddiad.	
<p><b>10 DIWEDDARIADAU CYFREITHIOL A RHEOLIADOL</b></p> <p>10.1 <u>Adroddwyd</u>: Dim i'w adrodd.</p> <p>10.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p><b>11 COFNODION DRAFFT O WAHANOL GYFARFODYDD</b></p> <p>11.1 <u>Derbyniwyd a Nodwyd</u>: Cofnodion drafft:</p> <p>11.1.1 Y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau 28 Mehefin 2017</p> <p>11.1.2 Ymddiriedolwyr Pensiwn 14 Gorffennaf 2017</p> <p>11.1.3 Pwyllgor Adolygu Perfformiad 13 Gorffennaf 2017</p> <p>11.1.4 Pwyllgor Archwilio 13 Gorffennaf 2017</p> <p>11.1.5 Cyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio 13 Gorffennaf 2017</p> <p>11.1.6 Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru 13 Medi 2017.</p> <p>11.2 <u>Adroddwyd</u>:</p> <p>11.2.1 Y Pwyllgor Penodiadau a Chydnabyddiaethau – Rhannodd y Llywydd y diweddaraf gyda'r Aelodau ar y broses recriwtio Llywydd newydd.</p> <p>11.2.2 Y Pwyllgor Adolygu Perfformiad – Bod y Bwrdd Mentrau a'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad yn monitro ac ystyried gwaith y cwmni cyfyngedig Mentrau. <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bod yr Amgueddfa yn adolygu'r ffordd y mae'r Bwrdd yn cael gwybod am waith Mentrau cyfyngedig, gan nodi ei statws fel cwmni preifat cyfyngedig.</p> <p>11.2.3 Ymddiriedolwyr Pensiwn – nododd y Cadeirydd fod y Cynllun mewn sefyllfa gadarnhaol.</p> <p>11.2.4 Sain Ffagan – Nododd yr Aelodau y Gytundeb â Kier.</p>	Cyfarwyddwr Cyffredinol
<p><b>12 UNRHYW FATER ARALL</b></p> <p>12.1 <b>Diolch gan y Llywydd</b> – Diolchodd Elisabeth Elias i'r holl staff yn Big Pit am groesawu Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a gwesteion yn ystod yr ymweliad dau ddiwrnod, a'u gwneud yn gartrefol.</p> <p>12.2 <b>Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd</b> – Cynigiodd Kay Andrews fod y Bwrdd yn cael Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd i ystyried Argymhellion Adroddiad Thurley. Nododd Peter Owen fod yr Adroddiad yn gyfle da iawn i wneud</p>	

Nodiadau	Camau gweithredu
<p>cynnydd da.</p> <p>12.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny, a bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn ystyried cynnal Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd i'r Ymddiriedolwyr.</p>	<p>David Anderson</p>
<p><b>DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:</b>  <u>Penderfynwyd</u>: Y bydd cyfarfod nesaf Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 14 Rhagfyr 2017 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p>	